**HYSBYSIAD O DAN ADRAN 122(2A) O DDEDDF LLYWODRAETH LEOL 1972**

- **MEDDIANNU TIR SY'N CYNNWYS MANNAU AGORED**

CYNGOR BWRDEISTREF SIROL PEN-Y-BONT AR OGWR

BRIDGEND COUNTY BOROUGH COUNCIL

DEDDF LLYWODRAETH LEOL 1972 ADRAN 122(2A)

TIR YM MHARC GRIFFIN A SANDY BAY, PORTHCAWL

Hysbysir drwy hyn fod Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr yn bwriadu meddiannu tir ym Mharc Griffin a Sandy Bay, Porthcawl, sydd ag arwynebedd o tua 19.84 hectar, sydd ar hyn o bryd yn fan agored dynodedig, i'w gadw at ddibenion cynllunio fel y'i diffinnir yn adran 246 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990.

Gellir archwilio cynllun sy'n nodi'r tir ar wefan y Cyngor ar

https://www.bridgend.gov.uk/cy/busnes/trwyddedu/hysbysiadau-cyfreithiol-a-gorchmynion/

Mae'r cynllun hefyd ar gael i'w weld yn Llyfrgell Porthcawl, Church Place, Porthcawl, CF36 3AG rhwng 9.15am - 6pm ddydd Llun, 9.15am-5pm ddydd Mawrth, 9.15am-1pm ddydd Mercher a 9.15am-5pm o ddydd Iau i ddydd Sadwrn. Sylwch fod y llyfrgell ar gau dros ginio rhwng 1pm -2pm o ddydd Llun i ddydd Sadwrn ac nid yw ar agor ddydd Sul.

Rhaid i wrthwynebiadau i'r meddiannu arfaethedig gael eu gwneud yn ysgrifenedig, gan nodi'r seiliau dros wrthwynebiad o'r fath a'u cyfeirio at: Gwasanaethau Cyfreithiol a Rheoleiddiol Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr, Swyddfeydd Dinesig, Stryd yr Angel Pen-y-bont ar Ogwr CF31 4WB neu drwy anfon e-bost at Porthcawlappropriation@bridgend.gov.uk erbyn dim hwyrach na 21 Gorffennaf 2022

Dyddiad: 30 Mehefin 2022

Kelly Watson

Prif Swyddog Gwasanaethau Cyfreithiol a Rheoleiddio, Adnoddau Dynol a Pholisi Corfforaethol